# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **7 Mai 2014**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o anghenraid yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe

| **Cynghorydd:** | Mark Thomas | Adran Etholiadol: | Penclawdd |
|---|---|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Yn ystod 2013-2014, cynhaliais gymorthfeydd misol ym Mhenclawdd a Llanmorlais. Cysylltais ag CNC ar gynllun amddiffyn rhag llifogydd newydd Penclawdd. Gweithiais gyda pherchnogion Tafarn y Railway a datblygwr posibl i adfer yr adeilad fel tafarn/bwyty. Ymatebais i'r materion niferus a godwyd mewn cymorthfeydd trwy e-bost a thros y ffôn. Mae'r rhain yn cynnwys goleuadau stryd, tyllau yn y ffordd, torri perthi a glaswellt, ceffylau a defaid crwydr, traffig yn gyrru'n rhy gyflym a baw cŵn. Hefyd, helpais i ymgyrchu dros adfer bysus gyda'r hwyr - yn llwyddiannus! Plannais flodau gwyllt a gweithiais gyda'r cyngor cymuned ar weithgareddau amrywiol eraill.

## Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

*Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.*

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 2 | 11 | / | 12 | 92 | % |
| Pwyllgor Archwilio | 1 | / | 2 | 50 | % |
| Y cyngor | 12 | / | 15 | 80 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 6 | / | 8 | 75 | % |
| Pwyllgor y Gronfa Bensiwn | 3 | / | 4 | 75 | % |
| Pwyllgor y Rhaglen Graffu | 10 | / | 16 | 63 | % |
| Panel yr Ymddiriedolwyr | 2 | / | 5 | 40 | % |
| CYFFREDINOL | 45 | / | 62 | 73 | % |

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd

Yn ychwanegol at y pwyllgorau uchod, roeddwn yn aelod o'r canlynol:

Pwyllgor y Gronfa Bensiwn
Tribiwnlys Prisio Gorllewin Cymru
Panel yr Ymddiriedolwyr (Cronfa'r Degwm).

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Cadeiriais y Gweithgor Craffu Cynllunio a Gorfodi. Anfonwyd argymhellion y grwpiau ymlaen at Aelod perthnasol y Cabinet mewn ymgais i wella'r broses. Mae cyfarfod dilynol wedi'i drefnu ar gyfer mis Mehefin 2014. Hefyd, gweithiais gydag ymgyrch W.A.N.T. i adfer gwasanaeth bws gyda'r hwyr.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

Euthum i'r sesiynau hyfforddiant canlynol:

05/03/2014 - Gwneud i gyfryngau cymdeithasol weithio i gynghorwyr
27/11/2013 - Deall cyllideb y cyngor

Yn ychwanegol at yr uchod, mae gennyf oddeutu 16 mlynedd o brofiad fel Ymddiriedolwr Pensiwn ar gyfer cynllun fy nghwmni. Mae hyn yn bendant wedi fy helpu yn fy rôl fel aelod o Bwyllgor y Gronfa Bensiwn. Mae fy mlynyddoedd niferus fel cyn-gynrychiolydd undeb hefyd wedi helpu. Rwy'n credu mai fy magwraeth a'm cefndir yw f'ased mwyaf fel cynghorydd.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Mae'n hawdd iawn dod ataf. Bob dydd o'r wythnos, rwy'n ymdrin â materion yn y ward a'r tu allan iddi. Rwy'n deall bod rhai materion yn bwysig iawn i bobl, ni waeth cyn lleied y gallent ymddangos - materion sy'n effeithio ar ansawdd bywyd pobl fel llygredd sŵn, trafnidiaeth, traffig, sbwriel, anifeiliaid crwydr, etc.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog sylfaenol - £13,175 y flwyddyn.

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| **Dyddiad:** | 12 Mai 2014 |
|---|---|